

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Rhagfyr 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr A. R. James, Ms J. McAlpine, Mrs. W. Mullen James, A.J. Rutherford, T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

37. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Ms J. Hughes (yn sâl), B. F. Moylan (yn sâl). Miss S.L. Roberts (ymrwymiad personol) a Miss R. Siddall (ymrwymiad gwaith).

38. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd A.R. James

Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen James

Nodyn 3: Datganodd y Cynghorydd A.J. Rutherford ei fuddiant personol a rhagfarnus yng nghais rhif 45/2016/1082 oherwydd ei gyfeillgarwch bersonol gyda'r ymgeisydd ac felly gadawodd y Siambr tra'r ystyriwyd a phleidleisiwyd ar y mater.

CEISIADAU CYNLLUNIO

38.1 **LLEOLIAD Y SAFLE:** Safle Ocean Beach, Ffordd Wellington, y Rhyl.

WARD: Foryd

	<p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/1104</p> <p>Adeiladu wal gynnal yn cyffinio iard wasanaethu arfaaethedig (yn gwasanaethu Adeilad A).</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Scarborough Development Group (Rhyl) Limited</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol am y rhesymau a nodwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rhaid ystyried adnewyddu arddull y wal gyda "wal fyw" fel y gosodwyd ar ddatblygiad Parc Prestatyn yn nghyffiniau siop Marks & Spencer. Oherwydd mwynderau gweledol trigolion sy'n byw gyferbyn â'r wal arfaaethedig. 2. Cyfyngu dosbarthiadau i'r siop i'r cyfnod 8.00 a.m. – 8.00 p.m. oherwydd mwnderau adloniadol trigolion sy'n byw yng nghyffiniau'r siopau. 3. Gweithredu cyfyngiad pwysau ar Sydenham Avenue oherwydd y defnydd tebygol gan lorïau dosbarthu mawr cymalog.
38.2	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 33 Marine Drive, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/1082</p> <p>Adeiladu estyniad dau lawr wrth ochr tŷ annedd.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Mr. Terry Hindmarsh o'r un cyfeiriad.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
38.3	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 65 Fforddlas, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/1121</p> <p>Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer defnydd presennol o dir fel llociau sy'n rhan annatod o ddefnydd cyfreithlon Lladd-dy'r Rhyl.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw B. & B. Webster, 10 Highlands Road, Rhuddlan.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>

38.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 79 Dyserth Road, y Rhyl.</p> <p><u>WARD:</u> Trellewelyn</p> <p><u>Rhif y CAIS:</u> 45/2016/1027</p> <p>Adeiladu estyniad un llawr ac ailddatblygu llety llawr gwaelod o un fflat yn dri fflat.</p> <p>Yr Ymgeisydd yw Utility Engineering Solutions Ltd. 183 Cross Street, Sale, Sir Gaer.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> Dim gwrthwynebiad</p>
------	---

39. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod:

Dyddiad: